

Cost Rhent a Thaliadau Gwasanaeth 2025/26

(adroddiad arolwg)

Os hoffech gael yr adroddiad hwn mewn unrhyw fformat neu iaith arall, mae croeso i chi gysylltu ag ateb.



Diolch am eich cefnogaeth

Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, neu unrhyw agweddau eraill o'r arolygon a'r adroddiadau hyn, mae croeso i chi ddod i'n Grŵp Cynllunio Arolygon sydd ei chynnal ar yr ail ddydd Mawrth, o bron bob mis.

Cadwch lygad ar [ein gwefan](#) am fanylion pa gyfleoedd sydd ar y gweill.

Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni

Pam cynnal yr adolygiad hwn?

Pwrpas y thema:

Mae ateb am gael gwybod gan ei gwsmeriaid a ydynt yn teimlo bod eu rhent a'u taliadau gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian.

Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg?

Gorffennaf, Awst, Medi a Hydref 2025.


Diolch am eich cymorth 🙏

Cawsom wybodaeth gan **589** o'n cwsmeriaid. (Cawsom **235** o ymatebion y llynedd.)


Eich barn chi...

Dyma'r ymatebion a gawsom (caiff canlyniadau'r llynedd eu dangos mewn cromfachau er mwyn gallu cymharu):


1. Wedi ateb: **586 (235)** Wedi symud ymlaen: **3 (0)**



2. Wedi ateb: **587 (235)** Wedi symud ymlaen: **2 (0)**




3. Wedi ateb: **588 (235)** Wedi symud ymlaen: **1 (0)**




Bodlonrwydd Cwsmeriaid — Dadansoddiad o'r Canlyniadau

Pa mor fodlon/anfodlon ydych chi bod eich rhent yn cynnig gwerth am arian?




Pa mor fodlon/anfodlon ydych chi bod eich taliadau gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian?



4. Wedi ateb: **486 (179)** Wedi symud ymlaen: **103 (48)**

4. Unrhyw sylwadau eraill ar bris rhent neu daliadau gwasanaeth?



Dyma rai o'r sylwadau a gawsom:

Gwerth am Arian — Taliadau Gwasanaeth

"Nid yw'r tâl yn cynrychioli'n deg y 'gwasanaethau' yr ydym yn eu cael mewn gwirionedd na lefel y gwasanaeth a ddarperir."

"Dyw fy lawnt flaen ddim wedi cael ei thorri ers o leiaf dau fis. Rwyf wedi gorfod ei chynnal a'i chadw fy hun — sy'n annerbyniol pan fyddaf yn gorfod talu 'taliadau gwasanaeth'."

"Does dim glaswellt na gwrychoedd yn cael eu torri, er ein bod yn talu am hynny."

"Nid yw cost y cydlynnydd yn adlewyrchu'r gwasanaeth yr ydym yn ei gael."

"Rwyf wedi bod yn talu tâl gwasanaeth am 18

mis, a dyw fy nrws ddim yn gweithio o hyd."

"Mae'n werth gwyb am arian, o gymharu â chost rhentu eiddo preifat."

"Rwy'n talu mwy am y gwasanaeth i'r glaswellt sydd o flaen fy nghartref, ond dydw i ddim yn ei gael — mae'n golygu bod y tu blaen yn edrych yn anniben."

"Dydw i ddim yn deall pam yr ydym yn talu am reoli plâu."

"Taliadau gwasanaeth fel yr erial teledu — pam? Dydyn ni ddim yn ei ddefnyddio, a hyd yn oed pe baem yn ei ddefnyddio does dim angen ei gynnal a'i gadw yn barhaus!"

Gwerth am Arian — Tasgau Atgyweirio

"Mae'r rhent yn rhy ddrud o ystyried cyflwr yr eiddo. Rwyf bob amser yn aros yn hir i waith atgyweirio gael ei wneud."

"Mae'n teimlo yn ddrud. Pryd bynnag y byddaf yn gofyn i rywun alw, mae'r gwasanaeth yn amrywio — mae gen i broblemau llwydni a does gen i ddim fentiau."

"Rwy'n byw yn yr eiddo ers 11 mlynedd, ac mae'r tasgau atgyweirio sydd wedi gorfod cael eu cyflawni wedi bod yn ddiddiwedd."

"Mae'n eiddo hŷn — mae peth gwaith wedi'i gwblhau, sy'n cynnwys cegin newydd eleni a gwaith ailweirio i ddod — ond mae angen rhoi sylw i rai agweddau o hyd."

Gwerth am Arian — Cyffredinol

"Mae'n warthus eich bod yn codi tâl am wasanaethau nad ydym yn eu cael."

"Rwy'n gwerthfawrogi'r cartref sydd gennym am yr arian."

"Gan ei fod yn dŷ â thair ystafell wely, mae'n werth da am arian."

"Mae'r rhent yn eithaf drud o ystyried maint y tŷ."

"Mae'r rhent braidd yn ddrud ar gyfer eiddo sydd wedi dyddio."

Cadarnhaol

"Rwy'n hapus iawn â'm tŷ ac â'r ardal!"

"Gwasanaeth gwych, diolch."

"Mae fy nghartref yn grêt, felly rwy'n hapus ar y cyfan."

"Mae popeth yn dda — mae ateb yn barod iawn i helpu gydag unrhyw ymholiadau, ac mae'n cyflawni unrhyw dasgau atgyweirio'n brydlon iawn pan fyddant yn codi."

"Rwy'n eithaf hapus â'r rhent, ond rwy'n credu bod y rhent ar gyfer eiddo â phedair ystafell wely dipyn yn uwch na'r rhent ar gyfer eiddo â thair ystafell wely. O ran y taliadau gwasanaeth, rwy'n hapus â'r ffaith eu bod yn dryloyw a'u bod ar wahân i'r rhent."

"Rwy'n fodlon â phopeth. Mae'r gwasanaeth yn ddi-fai. Mae'r bobl sy'n galw yn gyfeillgar iawn, a does dim rhaid disgwyl am waith atgyweirio neu am wasanaeth i offer."

Arall

"Does dim ffenest yn yr ystafell ymolchi, sydd wedi achosi problemau ers dros ddeng mlynedd."

"Mae fy unig sylw negyddol yn ymwneud â thu allan y tŷ — mae'r rendro yn dod yn rhydd. Dyw hynny ddim yn ddeniadol i bobl eraill, a

dylai gael ei atgyweirio a'i selio."

"Y bwyd sy'n gostwng safon y llety; fel arall, rwy'n eithaf hapus."

"Rwy'n anabl, felly mae'n braf cael y cymorth ychwanegol."

"Mae 99% o'r bobl sy'n galw yn wych, ac mae'r tasgau atgyweirio'n cael eu cwblhau yn wych hefyd."

"Rwy'n anhapus â'r newidiadau i'r tâl gwasanaeth ar gyfer cynnal a chadw'r tir, a'r ffaith nad oeddwn i'n gwybod bod yna gyfnod ymgynghori."

"Byddwn i'n hoffi pe bai cael fy lawnt wedi'i thorri yn opsiwn, gan fy mod yn anabl."

Fforddiadwyedd

"Rwy'n hapus â'r rhent presennol, ond ni fyddwn am iddo godi'n sylweddol."

"Yn ystod y pedair blynedd rydym wedi bod yn byw yma, mae wedi codi £90."

"Doeddwn i ddim yn meddwl y byddai wedi codi gymaint mor sydyn."

"Yn yr hinsawdd sydd ohoni, gyda'r holl filiau cyfleustodau'n codi, rwy'n ei chael yn anodd talu am bopeth — bron £600 y mis am rent a'r dreth gyngor."


"Mae fel pe bai'n dal i godi'n gyflym."

"Mae'n anodd i rywun fel fi sy'n talu rhent llawn."

"Mae'n codi ormod o lawer bob blwyddyn — pam?"

"Cadwch y rhent mor fach ag sy'n bosibl — bydd gennych gwsmeriaid hapusach wedyn."

5. Wedi ateb: **585 (234)** Wedi symud ymlaen: **4 (1)**



Rydym yn wirioneddol ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn

Angen cael gwybod mwy neu godi mater?

Anfonwch ebost atom: engage@atebgroup.co.uk

Ewch i'n gwefan: www.atebgroup.co.uk

Ffôn/Neges destun/WhatsApp: 07500 446611 / 01437 774766

Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni